**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Dirprwyo swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad

1. Yn unol â darpariaethau paragraff 7 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir drwy hyn swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r amodau a ganlyn.

2. Ni ddirprwyir y materion canlynol:

    a) penodiad, telerau ac amodau a thâl y Prif Weithredwr a'r Clerc, cynghorwyr annibynnol anweithredol y Comisiwn, ac aelodau o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad; nac

    b) awdurdodi gwariant o dan baragraff o 6 Atodlen 2 i Ddeddf 2006 (sef darparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol).

3. Rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn cyn:

    a) penodi ar gyfer swyddi ar lefel Cyfarwyddwyr;

    b) newid tâl a thelerau ac amodau'r staff sydd yn y swyddi hynny;

    c) creu swyddi Cyfarwyddwyr newydd neu ddiddymu swyddi Cyfarwyddwyr sydd eisoes yn bodoli;

    d) awdurdodi gwariant ar brosiectau neu cytundebau sy'n werth mwy na £5 miliwn; ac

    e) awdurdodi gwariant ar faterion y gellid eu hystyried yn newydd neu'n ddadleuol.

4. Nid yw'r ffaith bod y swyddogaethau uchod wedi'u dirprwyo yn rhwystro'r Comisiwn rhag ymgymryd â'r swyddogaethau dirprwyedig hynny.

*Llofnodwyd ar ran y Comisiwn gan y Llywydd*

.................................................

16 Mehefin 2016